Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ymgynghoriad ar y rheolau ffioedd drafft 2020

Ionawr 2020

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol Ionawr 2020

Cynnwys

Ynghylch y CFfC 4

Pwy ydyn ni 4

Yr hyn a wnawn 4

Trosolwg 5

Ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol 5

Ffioedd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol 6

Y broses ymgynghori 7

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn 7

Ymateb i'r ymgynghoriad 8

Manylion am y cynigion a'r cyd-destun 9

Rhan 1: Newidiadau i ffioedd cofrestru ac adnewyddu lleoliadau fferyllol 10

Rhan 2: Cwestiynau'r ymgynghoriad ar newidiadau i'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol 16

Atodiad 1: Ein polisi ffioedd 18

Atodiad 2: Rheolau ffioedd drafft 19

Atodiad 3: Sut rydyn ni'n cyfrifo'r ffi ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig 21

Ynghylch y CFfC

Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydym yn gweithio i roi sicrwydd ynghylch, a gwella, safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydym yn gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddynt gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydym yn gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydym yn helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Trosolwg

Mae'r Senedd wedi rhoi cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod gennym yr adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i gyflawni ein rôl reoleiddio a'r dyletswyddau statudol sydd arnom.

Yn rhan o'n strategaeth ariannol hir dymor, rydym yn ystyried ffyrdd o leihau ein costau, bod yn fwy effeithlon, defnyddio ein cronfeydd wrth gefn yn fwy effeithiol, a sicrhau bod y rhai sy'n cael eu rheoleiddio yn talu ffioedd priodol, yn ogystal ag ymchwilio i ffynonellau incwm eraill posibl.

Wrtha adolygu ein ffioedd, rydym wastad yn cynnal dadansoddiad strategol i benderfynu a oes gennym y cyllid sydd ei angen i dalu am gostau rheoleiddio. Pan gawsom ein sefydlu, penderfynodd y Senedd bod yn rhaid i'r bobl sy'n cael eu rheoleiddio fod yn gyfrifol yn uniongyrchol am gostau'r rheoleiddio. Felly, yn y CFfC, rydym yn edrych ar gost rheoleiddio pob grŵp o aelodau cofrestredig ac yn gosod ffioedd gwahanol ar gyfer pob grŵp, ar sail y costau hynny.

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd yn elwa o gael eu rheoleiddio'n effeithiol gan ei fod yn rhoi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd y gallant gael ffydd yn y gwasanaethau fferyllol maen nhw'n eu derbyn. Cawn ein hariannu'n bennaf gan y ffioedd a delir gan fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig, gyda swm bychan hefyd yn dod o'r ffioedd rydyn ni'n eu codi ar ddarparwyr addysg. Er mwyn parhau â'n gwaith fel rheoleiddiwr effeithiol sy'n diogelu'r cyhoedd, mae angen i ni sicrhau bod y sawl rydyn ni'n eu rheoleiddio yn talu ffioedd priodol i helpu i dalu am y gwaith rheoleiddio hwnnw.

Er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn briodol, rydym yn defnyddio 'model dyrannu costau'. Mae hwn yn dangos yn glir faint yw cost ein gweithgareddau unigol ac yn creu fframwaith ar gyfer trafod ffioedd.

Ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol

Ar sail ffigurau 2018/19, cost rheoleiddio pob lleoliad fferyllol yw £365 y flwyddyn. Mae rheoleiddio'r grŵp hwn yn cynnwys:

- arolygiadau (sy'n cynnwys costau cymorth a seilwaith sy'n galluogi ein timau arolygu i wneud eu gwaith)
- ail-arolygu pan fo angen
- datblygu polisi gorfodi
- arolygiadau cofrestru cychwynnol
- rheoli perthnasoedd strategol
- gweithgareddau cofrestru ac adnewyddu perthnasol
- rhan o gostau cymorth a seilwaith rhedeg y CFfC

Nid yw'r ffioedd a delir gan berchnogion fferyllfeydd wedi newid i adlewyrchu costau rheoleiddio fferyllfeydd. Nid yw hyn yn gynaliadwy.

Rydym felly yn cynnig cynyddu'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol gan £103 - o £262 i £365. Rydym yn gofyn am eich barn ar gynigion ynghylch a ddylai ffioedd lleoliadau fferyllol gael eu pennu ar sail faint mae'n ei gostio i'w rheoleiddio.

Ionawr 2020

Ffioedd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol

Nid oes cynlluniau i godi ffioedd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Ond rydym hefyd yn defnyddio'r ddogfen ymgynghori hon i ddweud wrth aelodau cofrestredig y byddwn yn ystyried newidiadau pellach i'n ffioedd yn rhan o'n strategaeth ffioedd hir dymor. Mae hyn yn cynnwys ystyried:

- y posibilrwydd o osod ffioedd ar gyfer pob grŵp aelodaeth dros gyfnod hirach; er enghraifft, drwy gysylltu â chwyddiant dros gyfnod tair blynedd neu osod ffioedd i godi pob blwyddyn yn ôl canran benodol sefydlog dros gyfnod tair blynedd.
- a allem gael opsiynau ffioedd mwy hyblyg, cyn cynnwys ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn gwahanol ffioedd ar gyfer rhai aelodau - rhai ar absenoldeb rhieni, er enghraifft - a'r costau ychwanegol am hyn, ac ymhlygiadau eraill
- graddfa o ffioedd ar gyfer lleoliadau, ar sail y math o leoliad, eu trosiant, neu ystyriaethau maint eraill
- y posibilrwydd o godi ffioedd yn uniongyrchol am weithgareddau rheoleiddiol eraill - ail-arolygu, er enghraifft

Yn y cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad, rydym yn ymgynghori rhwng 7 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 ar newidiadau arfaethedig i'n ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Y broses ymgynghori

Mae ein cyngor llywodraethol wedi ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth yn ofalus wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn. Rydym am roi ein barn ar brawf ac mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau bod eu penderfyniadau ynghylch ffioedd yn cael eu gwneud ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael pan fyddan nhw'n cwrdd i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Mehefin 2020.

Bydd yr ymgynghoriad yn para 12 wythnos a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei hanfon at ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, presgripsiynwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli proffesiynol a chyflogwyr, cleifion a'u cyrff cynrychioli, ac eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan unrhyw un sydd â gwybodaeth neu farn. Bydd hyn yn ein helpu i roi ein hagwedd gyffredinol at osod ffioedd ar brawf, yn ogystal â'r cynigion penodol. Bydd hefyd yn ein helpu i asesu effaith bosibl neu fanteision lefelau ffioedd penodol.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion sydd wedi dod i law ac yn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Bydd y Cyngor yn ystyried creu'r rheolau ffioedd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020, ac os bydd y Cyngor yn eu cymeradwyo, bydd y rheolau'n dod i rym ym mis Hydref 2020.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn. Byddwch yn gallu gweld y rhain ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**.

Pam rydyn ni'n ymgynghori

Dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, mae'n ofynnol i ni ymgynghori cyn i ni osod unrhyw safonau neu ofynion. Rydyn ni hefyd yn ymgynghori pan fo angen i sicrhau ein bod yn ymarfer ein dyletswyddau statudol yn effeithiol ac yn gymesur i gyflawni ein nod cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Sut y defnyddiwn eich gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Rydym yn gofyn i chi roi ychydig o wybodaeth gefndirol amdanoch chi ac, os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eich sefydliad. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i ddadansoddi effaith bosibl ein cynlluniau ar wahanol grwpiau. Rydym yn ymrwymedig at hybu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr proffesiynau, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni'r holl ddyletswyddau statudol sydd arnom. Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid i chi gwblhau hon, ond os gwnewch, bydd yn rho gwybodaeth ddefnyddiol i ni ei defnyddio i wirio bod hyn yn digwydd.

Sut y rhannwn eich gwybodaeth

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi'ch ymateb unigol. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn nodi enw eich sefydliad a gallem gyhoeddi eich ymateb yn llawn, oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am i ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch fod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trafod y cais o ddifri' ac yn ceisio'i barchu, ond ni allwn warantu y bydd cyfrinachedd yn cael ei gadw ymhob amgylchiad.

Os byddwch yn e-bostio ymateb i'r ymgynghoriad ag ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hyn, ynddo'i hun, yn rhwymol ar y CFfC.

Eich hawliau

Dan gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch, a gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, darllenwch ein **polisi preifatrwydd** ar ein gwefan.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i **www.pharmacyregulation.org/consultation-draft-2020-fees-rules** a chwblhau arolwg ar-lein yno.

Rydym yn annog ymatebwyr i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon ymateb drwy e-bost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i anfon aton ni drwy **consultations@pharmacyregulation.org**

Fformatau eraill

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon am y broses ymgynghori ei hun, neu sylwadau arni, anfonwch nhw i:

feedback@pharmacyregulation.org

neu gallwch eu postio i'r:

Tîm Llywodraethu
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Manylion am y cynigion a'r cyd-destun

Rhan 1: Newidiadau i ffioedd cofrestru ac adnewyddu lleoliadau fferyllol[1]

Cyflwyniad

Mae fferyllfeydd cofrestredig yn darparu gwasanaethau hollbwysig a meddyginiaethau sy'n sicrhau iechyd, diogelwch a lles pobl. Mae galw cynyddol am ofal iechyd ac mae hyn wedi creu mwy o bwysau. Mae'r pwysau hwn yn cynnwys heriau wrth ateb blaenoriaethau'r GIG, fel y nodir yn yr NHS Long Term Plan for England (Yn yr Alban, yr Health and Social Care Delivery Plan a'r Healthcare Quality Strategy; ac yng Nghymru, Cymru Iachach). Oherwydd y pwysau hwn ar fferyllfeydd, dim ond pan fo angen yr ydyn ni'n cynnig cynyddu ffioedd, er mwyn i ni allu parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, dim ond teirgwaith mae ffioedd lleoliadau wedi cynyddu:

- 2011/12
  Ffi'n cynyddu o £217 i £221
- 2015/16
  Ffi'n cynyddu o £221 i £241
- 2019/20
  Ffi'n cynyddu o £241 i £262

Rydym wedi gallu osgoi unrhyw godiadau eraill mewn ffioedd drwy wella ein heffeithlonrwydd a thrwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r bwlch rhwng incwm a gwariant.

Nid yw'r ffioedd a delir gan berchnogion fferyllfeydd cofrestredig wedi newid i adlewyrchu costau. Yn hytrach na chynyddu ffioedd, rydym wedi defnyddio ein cronfeydd wrth gefn. Rydym wedi gwneud hyn yn rhannol oherwydd yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau fferyllol, ond hefyd am fod ein cronfeydd wedi cynyddu am gyfnod a'n bod yn gallu fforddio gwneud hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r diffyg o ran yr hyn a delir gan berchnogion fferyllfeydd ychydig dros £103 i bob fferyllfa. Mae ein dadansoddiad ariannol hir dymor yn dangos nad yw talu'r diffyg hwn o'n cronfeydd wrth gefn yn opsiwn ariannol cynaliadwy. Am bedair o'r pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud colled.

Rydym felly yn cynnig cynyddu'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol gan £103 - o £262 i £365. Rydym yn gofyn am eich barn ar gynigion ynghylch a ddylai ffioedd lleoliadau fferyllol gael eu pennu ar sail faint mae'n ei gostio i'w rheoleiddio.

Rydym yn ymgynghori ar gynnydd i'n ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol cofrestredig, i ddod i rym ym mis Hydref 2020. Mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r ffioedd wedi eu seilio ar yr angen i gau'r bwlch rhwng costau rheoleiddio fferyllfeydd a'r ffioedd rydyn ni'n eu codi ar leoliadau fferyllol.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd rydym yn ei gynnig yn ystyried cynnydd mewn costau

[1]Nid oes cynlluniau i gynyddu ffioedd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

rheoleiddio yn y dyfodol. Felly byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau rheolaidd ar ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd ffioedd lleoliadau yn dal i gael eu pennu yn y dyfodol ar sail y swm mae'n ei gostio i'w rheoleiddio. Bydd adolygiadau'n cynnwys ystyried y posibilrwydd o ffi ychwanegol i fferyllfeydd sydd angen lefel uwch o reoleiddio.

1. Ynghylch ein ffioedd

Penderfynodd y Senedd y dylai cost rheoleiddio fferyllol gael ei thalu gan y sawl sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn wedi ei nodi yn y gyfraith. Mae'n golygu bod fferyllwyr, technegwyr fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd cofrestredig yn talu am ein gwaith i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn yn ddiogel.

Daw ein pŵer i godi ffioedd a newid lefelau ffioedd aelodau a fferyllfeydd cofrestredig o'r ddeddfwriaeth sy'n ein llywodraethu, sef Gorchymyn Fferyllol 2010. Rydyn ni'n nodi ein ffioedd yn y rheolau ffioedd - **Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu)(Diwygiad)**.

Os ydym am newid ein ffioedd, dywed y gyfraith bod yn rhaid i ni ymgynghori â'r bobl a'r sefydliadau sy'n eu talu.

Mae'n cymryd amser i ymgynghori a chytuno ar ffioedd newydd, a'u gweithredu, a mwy o amser wedyn i dderbyn yr incwm. Golyga hynny fod angen i ni weithredu nawr i sicrhau bod gennym arian digonol i reoleiddio yn y dyfodol. Rydym

yn gweithio ar strategaeth ffioedd hir dymor er mwyn i ni a'n haelodau allu cynllunio'n hir dymor, yn hytrach nag ar sail flynyddol.

Gallwch weld ein polisi ffioedd yn Atodiad 1.

Gallwch weld ein diwygiadau drafft i'r rheolau ffioedd yn Atodiad 2.

Gallwch ddarllen mwy am y rheolau ffioedd ar ein gwefan.

2. Pam mae angen newid ein ffioedd lleoliadau

Drwy barhau i wella ein heffeithlonrwydd a defnyddio rhywfaint o arian o'n cronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch rhwng ein hincwm a'n gwariant, nid ydym wedi cynyddu ein ffioedd yn sylweddol nac yn rheolaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw defnyddio ein cronfeydd wrth gefn fel hyn yn gynaliadwy nawr nac yn yr hir dymor.

Bwriadwn gyflawni ein rôl a'n hamcanion yn gynaliadwy drwy:

- barhau i leihau ein costau drwy weithio mewn ffordd mor effeithlon â phosibl, gan gynnwys buddsoddi mewn gwelliannau i'n gwasanaethau pan yn briodol
- defnyddio cronfeydd yn y ffordd orau
- parhau i adolygu ein strwythur ffioedd a lefelau'r ffioedd

Datblygiadau ym maes rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn datblygu ein dull arolygu yn erbyn y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Mae hyn wedi cynnwys: datblygu ac ysgrifennu adroddiadau arolygu ar gyfer pob fferyllfa sy'n cael ei harolygu; gwirio cynlluniau gweithredu fferyllfeydd nad ydyn nhw'n cyrraedd y safonau; a defnyddio ein pwerau gorfodi pan fo angen. Mae modelau gwasanaethu newydd hefyd wedi eu datblygu mewn fferylliaeth ac felly mae

angen am ganllawiau pellach i helpu i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd.

Bydd ein dull newydd yn ein helpu i roi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod gwasanaethau fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol, waeth sut y maen nhw'n cael eu trefnu a'u darparu. Defnyddiwyd ein cronfeydd wrth gefn i ddatblygu'r dull newydd o reoleiddio ac arolygu fferyllfeydd cofrestredig.

Mae rheoleiddio lleoliadau fferyllol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cynyddu ein llwyth gwaith a'n costau mewn nifer o feysydd. Ar sail tueddiadau'r presennol, rydym yn disgwyl y bydd y llwyth gwaith yn cynyddu eto yn y dyfodol (er ei bod yn anodd rhagweld yn gywir).

Gallai'r cynnydd yn ein llwyth gwaith a chynnydd posibl mewn costau gynnwys:

- cyhoeddi adroddiadau arolygu
- datblygu'r hyb gwybodaeth[2] ar ein gwefan arolygiadau fferyllol
- cynnydd yn nifer y ffyrdd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu, gan gynnwys o bell ac ar-lein. Mae gan rai o'r dulliau darparu hyn risgiau ychwanegol i ddiogelwch cleifion

Mae angen digon o incwm arnom i allu ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau posibl, er mwyn i ni barhau i ddiogelu cleifion a chyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio.

[2]Mae ein 'hyb gwybodaeth' yn rhoi enghreifftiau i'r tîm fferyllol o arferion gwaith nodedig rydyn ni wedi dod ar eu traws wrth arolygu fferyllfeydd. Mae'r hyb gwybodaeth yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer rhagorol, da a gwael ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson.

Adennill costau

Nid yw'r ffioedd sy'n cael eu talu gan leoliadau fferyllol wedi newid i adlewyrchu costau rheoleiddio fferyllfeydd. Ar sail ffigurau 2018/19, cost rheoleiddio pob lleoliad fferyllol yw £365 y flwyddyn. Mae rheoleiddio'r grŵp hwn yn cynnwys:

- arolygiadau (gan gynnwys y costau cymorth a seilwaith i alluogi ein tîm i wneud eu gwaith)
- ail-arolygu pan fo angen
- datblygu polisi gorfodi
- arolygiadau cofrestru cychwynnol
- rheoli perthnasoedd strategol
- gweithgareddau cofrestru ac adnewyddu perthnasol
- rhan o gostau cymorth a seilwaith rhedeg y CFfC

Y model dyrannu costau

I gyfrifo'r costau, rydym yn defnyddio 'model dyrannu costau'. Mae'r model yn dyrannu costau yn ôl – yn gyntaf – ein rolau statudol, sef:

- addysg
- gosod safonau
- cofrestru
- arolygu
- addasrwydd i ymarfer

Mae gwariant ymhob un o'r meysydd hyn yn cynnwys ein costau meddiannaeth, a'r meysydd cymorth a gweithredol. Yn ail, mae'r model yn dyrannu gwariant yn ôl grwpiau aelodaeth:

- fferyllwyr

- technegwyr fferyllol
- fferyllfeydd

Mae pa wariant a gaiff ei ddyrannu yn dibynnu ar amrywiol bethau. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd aelodau, nifer o wrandawiadau ar gyfer pob grŵp aelodaeth, a hyd arolygiadau ac ail-arolygiadau. Mae cyfanswm y costau ar gyfer pob grŵp aelodaeth wedyn yn cael ei rannu'n gyfartal gan nifer yr aelodau ymhob grŵp unigol. Mae hyn yn rhoi 'ffi fesul aelod' i ni.

Mae'r model dyrannu costau'n dangos yn glir faint mae ein gweithgareddau unigol yn eu costio, ac yn creu fframwaith ar gyfer trafod gosod ffioedd. Rydym yn adolygu ac yn mireinio'r model o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir. (Gweler Atodiad 3 ar gyfer rhagor o fanylion ynghylch sut rydyn ni wedi cyfrifo cost arolygu fferyllfeydd cofrestredig).

Asesiad effaith ar fusnes

Comisiynom yr ymgynghorwyr, EY, i gynnal asesiad effaith ar fusnes. Roedd hyn er mwyn i ni ddeall effaith y cynnydd sy'n cael ei gynnig i ffioedd ar sefyllfa ariannol fferyllfeydd a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel ac effeithiol. Mae'r adroddiad llawn **ar gael ar ein gwefan**.

Mae canfyddiadau EY yn dangos na fyddai'r cynnydd rydym yn ei gynnig yn lefelau'r ffioedd yn cael effaith arwyddocaol ar berfformiad ariannol fferyllfeydd. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod y sector fferyllol, fel y gwyddys, rywfaint yn fregus yn ariannol (mae nifer o fferyllfeydd yn gwneud colled). Fodd bynnag, bach iawn yw effaith y cynnydd sy'n cael ei gynnig i'r ffioedd o ran perfformiad ariannol presennol.

Wedi dweud hynny, oherwydd sefyllfa fregus y sector fferyllol ar hyn o bryd, byddwn yn ystyried yn ein strategaeth ffioedd tymor hir a ddylem osod ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r sector. Byddwn yn ystyried a all y ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol gael eu strwythuro'n fwy effeithiol i adlewyrchu cymhlethdod ac amrywiaeth cynyddol y ddarpariaeth fferyllol. Mae adroddiad EY yn awgrymu modelau gwahanol ar gyfer ffioedd lleoliadau yn y dyfodol. Er enghraifft, gallent gael eu seilio ar faint o bresgripsiynau sy'n cael eu paratoi neu'r gwasanaethau sydd ar gynnig.

O edrych ar reoleiddio, arolygu ac achredu mewn sectorau eraill, mae canfyddiadau EY yn dangos bod rheoleiddio'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r buddion a deimlir yn cynnwys mynediad haws at farchnadoedd a chynnydd yn hyder y defnyddiwr.

Cymariaethau gyda rheoleiddwyr eraill

Er mwyn cymharu, rydym hefyd wedi ystyried sut mae rheoleiddwyr eraill wedi gosod eu ffioedd. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ffioedd mae rheoleiddwyr eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg yn eu codi.

Mae rheoleiddwyr yn codi gwahanol fathau o ffioedd ac mae ganddynt gyfnodau adnewyddu gwahanol, felly nid yw wastad yn bosibl cymharu'n uniongyrchol. Mae'r ffioedd a ddangosir ar gyfer adnewyddu cofrestriad llawn am flwyddyn.

Yn y tabl canlynol, ar gyfer rheoleiddwyr lleoliadau, rydym wedi dewis enghreifftiau sydd mor debyg â phosibl i fferyllfeydd cofrestredig. Mae'r tablau yn nhrefn y ffioedd, o'r ffi adnewyddu blynyddol uchaf i'r isaf.

Cymharu ffioedd adnewyddu blynyddol a godir gan reoleiddwyr

Rheoleiddiwr	Ffi adnewyddu ar gyfer lleoliad	Math o leoliad
Health Improvement Scotland	£992	Clinigau annibynnol sy'n rhoi triniaethau anllawfeddygol
Comisiwn Ansawdd Gofal 2019/20	£598	deintyddfa ag un gadair
Cyngor Fferyllol Cyffredinol (ffioedd a gynigir)	£365	lleoliad fferyllol cofrestredig
Arolygiaeth Iechyd Cymru	£300	deintyddfa ag un deintydd
Pharmaceutical Society of Northern Ireland	£155	ar gyfer lleoliad fferyllol cyffredinol[3]

Hyd yn oed gyda chynnydd o £103, mae ffi adnewyddu lleoliad y CFfC yn cymharu'n ffafriol gyda'r ffioedd sydd wedi eu gosod gan reoleiddwyr eraill.

3. Ein strategaeth ariannol hir dymor

Bum mlynedd yn ôl, penderfynodd y CFfC ein bod yn cadw ein cronfeydd wrth gefn ar lefel rhy uchel. Penderfynon ni leihau'r lefel mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyfyngu ar y cynnydd mewn ffioedd adnewyddu am gyfnod cyfyngedig. Yn lle cynyddu'r ffioedd, fe dalom am gostau cynyddol rheoleiddio o'n cronfeydd wrth gefn.

Mae diffygion ariannol mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf wedi lleihau ein cronfeydd wrth gefn fel y bwriadwyd. Er ein bod wedi gallu fforddio gwneud hyn yn y byr dymor (gan fod ein cronfeydd wrth gefn yn ddigon mawr), nid yw'n wir bellach. Mae ein hadolygiad ariannol diweddaraf wedi dangos na allwn barhau i gyfrannu at ffioedd cofrestru ac adnewyddu. Felly, rydym wedi penderfynu ymgynghori ar gynigion i gynyddu ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol yn 2020, fel eu bod yn talu ffi sy'n adlewyrchu cost eu rheoleiddio'n fwy cywir. **Mae Atodiad 3 yn dangos sut rydyn ni'n cyfrifo'r ffi**.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein strategaeth ariannol hir dymor er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad sydd yn ariannol sefydlog a chynaliadwy sydd:

- yn cael ei ariannu'n briodol gan y sawl a reoleiddiwn ac sydd

[3]Mae'n bwysig nodi nad yw'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland yn arolygu lleoliadau fferyllol; yr Adran Iechyd sy'n cynnal arolygiadau yng Ngogledd Iwerddon.

- yn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl

Bydd y cynllunio ariannol hwn yn sicrhau bod y CFfC yn gallu cyllido ei waith rheoleiddio ar y lefel briodol yn y dyfodol.

Mae prif rannau ein strategaeth ariannol hir dymor yn cynnwys:

- ymateb i'r hyn a ddysgwn am sut gallai newidiadau mewn fferylliaeth effeithio ar ein hincwm a'n costau
- cynllunio, blaenoriaethu a chyllido buddsoddiadau yn ein systemau a'n prosesau
- sicrhau ein bod yn parhau i wella ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd ymhob rhan o'r CFfC, gan gynnwys drwy ein strategaethau cynllun sefydliad a llety
- gweithredu strategaeth fuddsoddi i gael yr incwm mwyaf posibl o ffynonellau eraill
- cynnal dulliau rheoli ariannol cadarn
- alinio'r strategaeth ariannol gyda chynllun strategol y CFfC
- y posibilrwydd o osod ffioedd ar gyfer pob grŵp aelodaeth dros gyfnod hirach - er enghraifft, drwy gysylltu gyda chwyddiant dros gyfnod tair blynedd neu osod ffioedd i gynyddu pob blwyddyn gan ganran sefydlog dros gyfnod tair blynedd
- ystyried a allem weithredu opsiynau ffioedd mwy hyblyg, gan gynnwys ystyried manteision ac anfanteision ffioedd gwahanol ar gyfer rhai aelodau - er enghraifft, rhai ar absenoldeb rhieni - a'r costau ychwanegol ac ymhlygiadau posibl eraill
- graddfa o ffioedd ar gyfer lleoliadau ar sail math, trosiant neu fesurau maint eraill
- y posibilrwydd o godi'n uniongyrchol am weithgareddau rheoleiddio ychwanegol - ail-arolygu, er enghraifft

Yn y tymor byr mae angen i'r CFfC gau'r bwlch rhwng cost rheoleiddio lleoliadau fferyllol a'r ffioedd a gesglir ar gyfer y rheoleiddio hwnnw.

Fodd bynnag, un o'r rhesymau dros ymgynghori yw rhoi rhybudd i'n haelodau y bydd ein hadolygiad ariannol a'n strategaeth hir dymor yn arwain at gynigion pellach am newidiadau i'n ffioedd yn y dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys codiadau ychwanegol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys pob grŵp aelodaeth, a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau.

Rhan 2: Cwestiynau'r ymgynghoriad ar newidiadau i'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol

Rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol gan £103, o £262 i £365.

Yn y CFfC, rydym yn defnyddio model dyrannu costau. Mae hwn yn dyrannu costau yn ôl ein rolau statudol (yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud) a chost rheoleiddio pob grŵp aelodaeth (fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau). Mae'n dangos yn glir faint yw cost rheoleiddio pob un o'r grwpiau hyn ac yn rhoi gwybodaeth i ni i'w defnyddio mewn unrhyw adolygiad ar ffioedd.

Mae'r cynnydd o £103 i ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol wedi ei seilio ar faint maen nhw'n ei gostio i'w rheoleiddio, a'r bwlch rhwng y ffigur hwnnw a'r swm maen nhw'n ei dalu mewn ffioedd.

Roedd ein hadolygiad yn cynnwys dadansoddiad o:

- y ffioedd a delir ar hyn o bryd gan bob grŵp aelodaeth
- y gwaith rheoleiddio y gwyddwn bod angen i ni ei wneud dros y flwyddyn nesaf, a'r
- bwlch tebygol rhwng y gyllideb a ragwelir a'r hyn a fyddai'n incwm i ni petai ffioedd ar gyfer lleoliadau'n parhau'n ddigyfnewid.

Croesawn eich barn ar y cwestiynau canlynol. Ewch i **https://surveys.pharmacyregulation.org/s/gphc-draft-2020-fees-rules** i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd cofrestru ac adnewyddu ar gyfer lleoliadau fferyllol gan £103, o £262 i £365. Mae'r cynnydd wedi ei seilio ar y gwahaniaeth rhwng y ffi ar hyn o bryd ar gyfer lleoliad a chost rheoleiddio lleoliad fferyllol yn ôl ein model dyrannu costau.

1. **Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cynnydd mewn ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol fod yr un faint â'r gwahaniaeth rhwng y swm maen nhw'n ei dalu ar hyn o bryd mewn ffioedd (£262) a chost eu rheoleiddio (£365)?** [4]
2. **Beth yw'r rheswm dros eich ateb?**

Dros y ddwy flynedd nesaf, yn rhan o'n strategaeth ffioedd hir dymor, byddwn yn ystyried newidiadau i'n ffioedd ar gyfer pob grŵp aelodaeth. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar:

- osod ffioedd ar gyfer pob grŵp aelodaeth dros gyfnod hirach, er enghraifft, drwy gysylltu gyda chwyddiant dros gyfnod tair blynedd neu osod ffioedd i gynyddu pob blwyddyn gan ganran sefydlog dros gyfnod tair blynedd
- a allem weithredu opsiynau ffioedd mwy hyblyg, gan gynnwys ystyried manteision ac anfanteision ffioedd gwahanol ar gyfer rhai aelodau - er enghraifft, rhai ar absenoldeb rhieni

[4] Cyfrifwyd y gost o £365 ar gyfer rheoleiddio lleoliadau fferyllol ym mis Hydref 2019 ac mae wedi ei seilio ar ddata 2018/19.

- gwahanol ffioedd ar gyfer lleoliadau ar sail math, trosiant neu fesurau maint eraill
- y posibilrwydd o godi'n uniongyrchol am weithgareddau rheoleiddio ychwanegol - ail-arolygu, er enghraifft

3. **Ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r meysydd cywir i'w hystyried yn y dyfodol?**
4. **Eglurwch eich ateb a dywedwch wrthym am unrhyw feysydd eraill y credwch y dylem eu hystyried yn rhan o'n strategaeth ffioedd hir dymor.**

Effaith ar gydraddoldeb

Rydym am ddeall a allai ein cynigion effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil/ethnigrwydd
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

5. **Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig?**

Rydym hefyd am wybod a gaiff ein cynigion unrhyw effaith arall ar unrhyw unigolion neu grwpiau (ystyriaethau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig) - er enghraifft, cleifion, perchnogion fferyllfeydd neu staff fferyllol.

6. **Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion yn effeithio yn gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?**
7. **Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i gwestiynau 5 a 6 uchod. Disgrifiwch yr unigolion neu'r grwpiau dan sylw a'r effaith y credwch y caiff ein cynigion arnynt.**

Atodiad 1: Ein polisi ffioedd

1. Rhaid i'r ffioedd a osodwn dalu am gost darparu ein swyddogaethau rheoleiddio a sicrhau gwydnwch ariannol y sefydliad er mwyn i safonau fferyllol barhau i gael eu cynnal.
2. Byddwn yn dyrannu refeniw a ddaw drwy ffioedd mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflawni ein diben statudol a'n swyddogaethau rheoleiddio, gan osgoi 'ymledu rheoleiddiol', lle gall safonau, canllawiau a rheoleiddio dyfu'n gymhleth, yn aneglur, yn ddryslyd neu lle gallant wrth-ddweud ei gilydd.
3. Byddwn yn gosod safonau ar gyfer gwahanol grwpiau aelodaeth mewn ffordd sy'n ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys: cost rheoleiddio; ffactorau risg cymharol pan fônt yn wybyddus; a ffioedd rheoleiddio grwpiau proffesiynol eraill. Rydym yn ymrwymedig at ystyried y ffactorau hyn, ond yn cydnabod, o ystyried cymhlethdod y materion hyn, nad oes fformiwla berffaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.
4. Byddwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau uchod a'r angen i osgoi gorgymhlethu ein strwythur ffioedd, a allai gynyddu ein costau yn eu crynswth.
5. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried ffactorau allanol, gan gynnwys ffactorau economaidd, wrth osod ffioedd, ochr yn ochr â'r angen i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol.
6. Byddwn yn adolygu'r egwyddorion hyn o dro i dro a sicrhau ein bod yn nodi'n glir unrhyw newid arwyddocaol mewn materion sy'n caniatáu i ni ostwng neu gynyddu ffioedd yn y dyfodol, neu'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny.
7. Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i adnabod ffyrdd o wneud ein gweithgareddau rheoleiddio'n fwy effeithlon a'u hegluro wrth ymgynghori ar ffioedd.
8. Byddwn yn ceisio, drwy gynllunio'n effeithiol at y dyfodol a thrwy ystyried ffactorau allanol, osgoi amrywiadau mawr mewn ffioedd, i fyny neu i lawr, yn y dyfodol.

Atodiad 2: Rheolau ffioedd drafft

The General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) (Amendment) Rules 2020

The General Pharmaceutical Council has made these Rules in exercise of the powers conferred by articles 36(1) of the Pharmacy Order 2010([5]).

In accordance with those provisions, the General Pharmaceutical Council has consulted such persons and organisations as it considered appropriate, including the persons and organisations listed in article 36(6)(a) to (d) of that Order.

Citation and commencement

1.—(1) These Rules may be cited as the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) (Amendment) Rules 2020.

(2) These Rules come into force on [*insert date*].

Amendment of the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015

2. The Schedule to these Rules amends the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015([6])—

(a) to increase the amount of the fee payable on the grant of an application for the entry of premises in Part 3 of the Register; and

(b) to increase the amount of the fee payable on the renewal of any such entry.

Given under the official seal of the General Pharmaceutical Council [*insert date*].

L.S.

Nigel Clarke

Chair

Duncan Rudkin

Chief Executive and Registrar

([5]) S.I. 2010/231.

([6]) The General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015 were amended by the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) (Amendment) Rules 2019.

SCHEDULE

Amendments to the General Pharmaceutical Council (Registration and Renewal Fees) Rules 2015

Amendment of rule 26

1. In rule 26 (entry in Part 3 of the Register following the grant of an application), for "£262" substitute "£365".

Amendment of rule 29

2. In rule 29(1) (renewal of an entry in Part 3 of the Register), for "£262" substitute "£365".

Atodiad 3: Sut rydyn ni'n cyfrifo'r ffi ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig

Mae'n bwysig ein bod yn dryloyw ynghylch sut y defnyddiwn incwm o'n ffioedd, a'r gweithgareddau rydym yn bwriadu eu cynnal yn y dyfodol i gyflawni ein rôl statudol i ddiogelu'r cyhoedd.

Mae ein hincwm i gyd yn cael ei wario ar gynnal ein prif waith, neu ei gefnogi'n uniongyrchol. Gallwch **ddarllen gwybodaeth fanylach yn ein hadroddiad a chyfrifon blynyddol**.

Mae ein Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyllideb y sefydliad mewn cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd, a gallwch weld ein gwybodaeth ariannol fanwl ar ein gwefan.

Dyma sut mae'r ffi ar gyfer rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig wedi ei chyfrifo.

Y broses dyrannu costau



Rydym wedi bod yn defnyddio 'model dyrannu costau' er mwyn cael dealltwriaeth glir o gostau, fesul grŵp aelodaeth, a fesul pob swyddogaeth statudol. Defnyddiom ymgynghorwyr allanol i werthuso'r model - i sicrhau ei fod yn deg ac yn briodol - ac rydym wedi ei ddefnyddio i adolygu lefelau ffioedd bob blwyddyn

Sut dyrannodd y model gostau ar gyfer 2018/19

Cyfanswm y gwariant yn 2018/19 oedd £23.8m. Defnyddiom y model i ddyrannu'r gwariant yn erbyn ein rolau statudol ac yn erbyn y gwahanol grwpiau aelodaeth.

Grŵp aelodaeth	Swm (£000'oedd)
Fferyllwyr	15,589
Lleoliadau	5,186
Technegwyr fferyllol	3,047
Cyfanswm	**23,822**

Cost rheoleiddio lleoliadau cofrestredig

Mae'r gweithgareddau sy'n rhan o reoleiddio lleoliadau yn cynnwys:

- arolygu, ail-arolygu ac arolygu cofrestriadau cychwynnol
- datblygu a gweithredu safonau a chanllawiau
- gweinyddu cofrestriadau ac adnewyddiadau blynyddol
- rheoli strategol a sicrhau ansawdd

Cost fesul gweithgaredd: lleoliadau



Cymharu incwm a gwariant

Cost rheoleiddio lleoliadau yn erbyn incwm (£000'oedd)



Ar hyn o bryd, mae costau rheoleiddio yn y maes hwn lawer yn uwch na'r incwm a dderbyniwn. Mae'r sefyllfa hon wedi ei chynnal dros sawl blwyddyn drwy ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch ariannol.

Nid yw hyn yn gynaliadwy, gyda'r twf mewn gwasanaethau clinigol a gweithgareddau megis

y dull arolygu newydd ac adroddiadau arolygu ar-lein. Mae angen i ni hefyd barhau i fuddsoddi mewn datblygiadau i'n seilwaith.

Y diffyg fesul lleoliad fferyllol



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
Ff **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheGPHC
TheGPHC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org